Adroddiad ar

**Wriggles & Giggles**
**70 Victoria Street**
**Hen Gwmbrân**
**Torfaen**
**NP44 2LR**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2014**

gan

**Michael T. Ridout**
**Arolygydd Cofnodol**

ar ran

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 09/12/2014**

## Cyd-destun

Meithrinfa cyfrwng Saesneg, dan berchenogaeth breifat yn Hen Gwmbrân, Torfaen yw Wriggles and Giggles.  Mae wedi'i gofrestru ar gyfer 34 o blant hyd at saith oed, a darpar sesiynau gofal dydd hyblyg trwy gydol y flwyddyn ar ddyddiau'r wythnos, rhwng 7.30am a 6.00pm.

Yn ystod tymhorau ysgol, mae'r feithrinfa yn darparu sesiynau bore a phrynhawn sy'n cyflwyno addysg cyn-ysgol ar gyfer plant tair a phedair oed.  Adeg yr arolygiad, roedd naw o blant ar y gofrestr.  Mae Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yn ariannu dau o'r plant hyn hyd at 10 awr yr wythnos.

Mae'r rhan fwyaf o'r teuluoedd sy'n defnyddio'r feithrinfa yn byw yng Nghwmbrân.  Daw'r plant cyn-ysgol sy'n mynychu o gefndiroedd amrywiol ac mae ganddynt ystod o alluoedd.  Mae pob un ohonynt yn siarad Saesneg ac wedi'u geni'n Brydeinwyr.  Nid oes unrhyw blant yn dod o leiafrifoedd ethnig.  Nid yw'r un o'r teuluoedd yn siarad Cymraeg gartref.  Nid oes unrhyw blant yn cael cymorth ychwanegol ar gyfer dysgu.

Cafodd y lleoliad ei arolygu ddiwethaf yng Ngorffennaf 2014 gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, a chan Estyn yn Hydref 2008.  Prynwyd y busnes gan y perchennog presennol yn 2011 ac mae'r cyfleusterau wedi'u hailwampio ers hynny.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd:

- mae'r ddarpariaeth addysgol yn bwrpasol a chynhwysol;
- caiff ystod eang o brofiadau dysgu diddorol ei chynllunio;
- mae'r addysgu yn effeithiol a'r asesu wedi'i ddatblygu'n dda;
- mae gofal, cymorth ac arweiniad effeithiol yn sicrhau lles plant; ac
- mae'r trefniadaeth gyffredinol ar adnoddau dysgu yn dda.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd:

- mae'r feithrinfa yn cael ei rhedeg, ei rheoli a'i datblygu yn dda;
- mae ethos cadarn o waith tîm i'w weld yn amlwg;
- mae diwylliant o hunan-wella wedi'i sefydlu'n dda;
- mae gan y lleoliad bartneriaethau cadarn â rhieni ac asiantaethau cymorth; ac
- mae gwelliant da wedi'i wneud ers yr arolygiad diwethaf.

## Argymhellion

Er mwyn gwella ymhellach, dylai’r lleoliad:

A1 gryfhau’r cynllunio er mwyn sicrhau her briodol yn y dysgu;

A2 gwella ystod yr adnoddau ar gyfer llythrennedd a rhifedd;

A3 datblygu cynlluniau gweithredu manwl a blaenoriaethu nodau’r lleoliad;

A4 gwella’r ddarpariaeth ar gyfer dysgu awyr agored.

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Dd/B |
|---|---|

**Safonau: Dd/B**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

**Lles: Dd/B**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae ystod eang o brofiadau dysgu yn cael ei chynllunio'n dda ac mae hyn yn hyrwyddo cynnydd tuag at ddeilliannau'r Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus. Mae'r plant yn cael profiad o'r holl feysydd dysgu drwy weithgareddau diddorol a threfnus.

Mae'r cynllunio yn darparu fframwaith da ar gyfer darpariaeth tymor hir a thymor byr, ac mae'n cyd-fynd ag anghenion plant. Caiff themâu eang eu dewis yn ofalus i ddarparu cyd-destunau perthnasol i blant ddysgu drwy chwarae. Mae tasgau a arweinir gan oedolion wedi'u diffinio'n dda a chaiff amcanion dysgu priodol eu nodi, ond nid oes digon o fanylion yn cael eu darparu am sut gallai tasgau gael eu gwella. Ceir ystod dda o weithgareddau dan do ac mae'r rhain yn adeiladu'n briodol ar wybodaeth a medrau blaenorol plant. Mae'r cynllunio yn gadarn ar gyfer gweithgareddau awyr agored, ond nid yw gweithgareddau'n cael eu datblygu'n llawn bob amser.

Rhoddir pwyslais priodol ar ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a chyfathrebu. Er enghraifft, mae gweithgareddau chwarae rôl yn y caffi yn cael eu defnyddio'n effeithiol i hyrwyddo medrau siarad a gwrando. Yn yr un modd, mae medrau rhif plant yn cael eu datblygu'n dda, er enghraifft pan fyddant yn cyfrif ac yn paru anifeiliaid lliw. Mae'r ffocws ar fedrau TGCh yn datblygu'n raddol, er enghraifft trwy weithredu rhaglenni efelychu a theganau rheoladwy.

Caiff y fframwaith medrau ei ddefnyddio'n dda i wirio bod y gweithgareddau a gynllunnir yn hyrwyddo medrau perthnasol a bod pob maes dysgu yn cael sylw. Mae hyn yn helpu sicrhau dilyniant priodol yn y dysgu, ond er bod cynlluniau bob pythefnos yn cofnodi amcanion dysgu, nid oes digon o fanylion yn cael eu cofnodi am sut a beth y gallai'r plant ei ddysgu er mwyn hyrwyddo cynnydd i'r eithaf, yn enwedig ar gyfer plant abl.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r Gymraeg ac i hyrwyddo ymwybyddiaeth o hanes a diwylliant Cymru, yn briodol. Cyflwynir geirfa Gymraeg bob dydd a chynllunnir gweithgareddau difyr, fel y rhai i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi.

**Addysgu: Da**

Mae'r addysgu yn gosod disgwyliadau uchel ac yn hyrwyddo datblygiad personol a chymdeithasol plant yn dda. Mae cynllunio strwythuredig ac arferion rheolaidd yn helpu sicrhau bod cydbwysedd priodol rhwng tasgau a ddewisir gan blant a thasgau a gychwynnir gan oedolion. Mae ymarferwyr yn rheoli dysgu ac ymddygiad plant yn dda; darparant fodelau rôl da mewn iaith, a defnyddiant ystod o strategaethau addysgu yn effeithiol. Fodd bynnag, mae eu defnydd o'r Gymraeg y tu allan i weithgareddau grŵp cyfan yn gyfyngedig.

Mae gwybodaeth a dealltwriaeth dda gan ymarferwyr o ddatblygiad plant a'r Cyfnod Sylfaen. Maent yn gwybod sut i ddatblygu'r tasgau y maent yn eu harwain neu'u cefnogi, ac yn ennyn diddordeb y plant yn fedrus. Er enghraifft, maent yn hyrwyddo medrau darllen ac ysgrifennu cynnar yn effeithiol. Mae dealltwriaeth ymarferwyr o'r amcanion dysgu ar gyfer tasgau ac ymwybyddiaeth o strategaethau i herio plant i ehangu'u dysgu yn datblygu'n raddol.

Mae ymarferwyr yn gefnogol ac yn defnyddio technegau holi a chanmol yn dda. Caiff dysgu drwy chwarae ei annog yn gadarn. Yn aml, mae'r addysgu yn adeiladu'n dda ar weithgareddau i ehangu'r dysgu. Caiff cyfleoedd ar gyfer dewis ac annibyniaeth eu hyrwyddo'n dda; rhoddir digon o amser i blant gwblhau tasgau, ac mae ymarferwyr yn ymyrryd yn briodol pan fo angen. Roedd hyn i'w weld yn amlwg, er enghraifft wrth chwarae gyda cherbydau a ffyrdd.

Mae ystod dda o weithdrefnau asesu yn cael ei defnyddio'n gyson. Mae asesiadau cychwynnol yn nodi mannau cychwyn plant a defnyddir dyddiadur dyddiol rhwng y feithrinfa a'r cartref yn dda i gofnodi cyflawniadau. Yn ogystal, mae asesiadau â ffocws yn cael eu rhoi ar waith a llyfrynnau arsylwi unigol yn cael eu cwblhau ar gyfer pob plentyn. Caiff y wybodaeth a gofnodir ei defnyddio'n gynyddol i gynllunio'r camau nesaf yn y dysgu.

Caiff rhieni a gofalwyr wybodaeth dda am gynnydd eu plentyn. Mae cysylltiadau o ddydd i ddydd, cyfarfodydd ffurfiol rheolaidd ac adroddiadau ysgrifenedig manwl cyn trosglwyddo i'r ysgol yn hyrwyddo cyfnewid gwybodaeth yn dda.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r lleoliad yn darparu'n dda ar gyfer iechyd a lles plant. Rhoddir pwyslais cadarn ar ddatblygiad personol a chymdeithasol. Mae gwerthoedd cadarnhaol fel tegwch, gonestrwydd a pharch at eraill yn cael eu hyrwyddo'n sensitif. Mae'r ddarpariaeth yn dda ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol.

Mae bwyta'n iach yn cael ei annog yn gadarn drwy'r dewis o fwydydd a gynigir amser byrbryd, ac mae plant yn mwynhau cyfleoedd rheolaidd ar gyfer chwarae egnïol. Caiff ymddygiad da ac agweddau cadarnhaol eu hyrwyddo'n dda iawn. Mae plant yn cael eu hannog yn sensitif i wahaniaethu rhwng da a drwg. Mae ymweliadau a digwyddiadau yn helpu ymgysylltu plant â'r gymuned leol a hyrwyddo chwilfrydedd

ynglŷn â'r byd ehangach. Mae cyfleoedd fel ymweliadau awyr agored yn annog plant i fyfyrio ar ryfeddodau byd natur. Caiff ymwybyddiaeth ddiwylliannol ei hyrwyddo'n dda, er enghraifft trwy ddathlu gwyliau a blasu bwydydd o wledydd eraill. Mae'r lleoliad yn annog cynaliadwyedd drwy weithgareddau, fel ailgylchu a chompostio, ond nid yw ymglymiad plant yn cael ei ddatblygu'n ddigonol.

Mae polisi a gweithdrefnau priodol gan y lleoliad i gynorthwyo plant ag anghenion dysgu ychwanegol pan fo angen.

Rhoddir asesiadau risg priodol ar waith; mae gan bob aelod o staff dystysgrif ddilys gan y gwasanaeth datgelu a gwahardd, ac maent wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf a diogelu. Mae polisi priodol a gweithdrefnau ar gyfer diogelu gan y lleoliad. Nid yw'r trefniadau hyn yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos cynhwysol yn y ddarpariaeth, ac mae'n hyrwyddo cydraddoldeb yn dda. Mae ymarferwyr yn trin plant â pharch. Maent yn meithrin perthnasoedd cadarnhaol yn llwyddiannus ac yn rhoi ystyriaeth dda i gefndiroedd gwahanol plant. Mae hyn yn helpu sicrhau bod plant yn teimlo'n ddiogel ac yn rhydd rhag pryder gormodol.

Mae ymarferwyr yn annog sensitifrwydd a dealltwriaeth tuag at ei gilydd ac yn defnyddio strategaethau cadarnhaol i reoli unrhyw ymddygiad heriol. Caiff cyfle cyfartal ei hyrwyddo'n dda. Fodd bynnag, nid yw polisïau yn cynnwys manylion unrhyw gamau i sicrhau bod plant ag anableddau yn y dyfodol yn cael triniaeth lai ffafriol.

Mae digon o ymarferwyr cymwys a phrofiadol yn darparu'n dda ar gyfer nifer y plant. Mae digonedd sylfaenol o adnoddau ar gael i fodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen, ond cyfyngedig yw ystod yr adnoddau ar gyfer llythrennedd a rhifedd. Mae'r adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac mae'n darparu amgylchedd diogel a chadarn. Mae ardal addas ar gyfer dysgu awyr agored yn ymyl y feithrinfa, ond cyfyngedig yw'r lle storio ar gyfer cyfarpar.

Gwneir defnydd da o adnoddau lleol ac ymwelwyr achlysurol i gyfoethogi profiadau plant.

| | | |
|---|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3:** | **Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Caiff y lleoliad ei arwain, ei reoli a'i ddatblygu'n dda. Mae'r perchennog yn gosod safonau proffesiynol uchel a chaiff gefnogaeth dda gan reolwyr allweddol ac ymarferwyr profiadol. Mae'r arweinyddiaeth yn darparu cyfeiriad strategol clir ac yn annog datblygiad y ddarpariaeth cyn-ysgol yn llwyddiannus. Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth dda o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Mae ethos pwrpasol a frwdfrydig o waith tîm, ymdeimlad cadarn o ddiben a gwerthoedd a rennir i'w gweld yn amlwg yn y lleoliad. Caiff ystod briodol o bolisïau a gweithdrefnau ei gweithredu'n gyson.

Mae'r arweinyddiaeth yn llwyddo canolbwyntio ar anghenion plant, er enghraifft, wrth ailwampio'r feithrinfa. Mae arferion bob dydd yn cynnwys strwythur da ac mae trefniadaeth sesiynau cyn-ysgol yn effeithiol. Mae ymarferwyr yn cyfrannu at werthusiad blynyddol, ac mae'r broses hon yn addas o drwyadl. Mae'n gefnogol ac yn ddatblygiadol, a chaiff targedau priodol eu cytuno.

Mae'r perchennog a rheolwyr allweddol yn monitro datblygiadau'n fanwl. Mae'r lleoliad yn dwyn blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn eu blaen yn dda. Caiff y Cyfnod Sylfaen ei roi ar waith yn dda ac mae pwyslais priodol ar hyrwyddo cydraddoldeb, ffyrdd iach o fyw a mynd i'r afael ag anfantais.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae tystiolaeth gref o welliant cyson yn y ddarpariaeth addysgol dros y tair blynedd diwethaf. O ganlyniad, mae'r lleoliad wedi gwneud cynnydd da o ran mynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed yn yr arolygiad diwethaf.

Mae diwylliant o hunanwella i'w weld yn amlwg, ac mae rheolwyr yn rhoi ystyriaeth ofalus i farnau ymarferwyr a rhieni, fel drwy holiaduron. Mae rheolwyr yn cwblhau adolygiad blynyddol o'r ddarpariaeth ar draws y feithrinfa sy'n nodi cryfderau a gwendidau. Mae cynllun gweithredu diweddar wedi sicrhau ymateb cadarnhaol i argymhellion yn deillio o arolygiad o ansawdd gofal yn y feithrinfa.

Mae ffocws cadarnach yn datblygu ar arfarnu'r ddarpariaeth addysgol. Mae'r adroddiad hunanarfarnu a'r cynllun gwella a ddatblygwyd cyn yr arolygiad hwn yn darparu sylfaen dda ar gyfer blaenoriaethu nodau addysgol allweddol a strwythuro gwelliannau pellach. Fodd bynnag, mae diffyg cynlluniau gweithredu manwl i ddangos sut bydd adnoddau'n cael eu darparu ar gyfer mentrau a sut byddant yn cael eu rheoli yn cyfyngu'r ffocws ar strategaethau i gyflawni nodau allweddol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae partneriaethau'r lleoliad yn effeithio'n dda ar ansawdd y ddarpariaeth addysgol.

Mae cysylltiadau cadarn â rhieni a gofalwyr yn sicrhau cyfathrebu effeithiol. Cânt wybodaeth fanwl am y feithrinfa, ac mae trefniadau sefydlu ar gyfer plant yn cael eu rheoli'n dda. Mae cylchlythyrau yn darparu manylion digwyddiadau a gwneir defnydd cynyddol o gyfryngau cymdeithasol a gwefan i roi gwybodaeth gyson i rieni. Fodd bynnag, mae cyfleoedd yn cael eu colli i ddarparu gwybodaeth am y cwricwlwm cyn-ysgol.

Mae dyddiadur dyddiol rhwng y feithrinfa a'r cartref yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i hyrwyddo cyfnewid gwybodaeth am gynnydd plant o ddydd i ddydd. Trefnir cyfarfodydd ymgynghori â rhieni i drafod cyflawniadau plant, a thrafodir cofnodion unigol cyn trosglwyddo i'r ysgol.

Mae cysylltiadau gydag ysgolion sy'n derbyn yn cael eu trefnu'n dda cyn trosglwyddo i'r ysgol, ac mae trefniadau'n cynnwys cyfarfodydd ag athrawon a chyfnewid cofnodion.

Mae partneriaeth â’r awdurdod lleol ac asiantaethau eraill, gan gynnwys y Gymdeithas Meithrinfeydd Dydd Genedlaethol, yn fuddiol o ran darparu hyfforddiant ac arweiniad. Mae’r cymorth a’r sicrwydd ansawdd a ddarperir gan yr awdurdod lleol yn cael ei werthfawrogi gan y lleoliad.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae’r defnydd o ymarferwyr yn effeithlon ac effeithiol. Caiff adnoddau dysgu sydd ar gael eu trefnu’n dda i gymell dysgu plant dan do, ond mae’r defnydd a wneir o ddarpariaeth awyr agored yn llai effeithiol. Mae rheolwyr yn monitro gwaith cyffredinol y feithrinfa yn fanwl, ond nid yw’r cynllunio ar gyfer anghenion adnoddau yn y dyfodol yn y ddarpariaeth cyn-ysgol wedi’i ffurfioli’n ddigonol.

Mae ymarferwyr yn ymgymryd yn rheolaidd â datblygiad proffesiynol priodol. Yn ystod digwyddiadau hyfforddi, maent yn rhannu arfer orau gydag ymarferwyr eraill, ond nid ydynt wedi cael cyfleoedd i ddysgu am agweddau llwyddiannus ar ddarpariaeth drwy ymweld â lleoliad arall.

Mae’r lleoliad yn defnyddio’i adnoddau ei hun yn effeithiol, ynghyd â’r cyllid a dderbyniwyd ar gyfer addysg hawl gynnar. Mae hyn yn effeithio’n dda ar ansawdd y ddarpariaeth addysgol ac yn cynnig gwerth am arian.

# Atodiad 1

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i rieni

Derbyniwyd llai na 10 ymateb. Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Mr. Michael T. Ridout | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |